



24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Peter Curran a Mr Umar Hussain
Prif Swyddogion Cyllid
Heddlu De Cymru
Pencadlys Heddlu De Cymru
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3SU

Cyfeirnod: 1648A2019-20

Dyddiad cyhoeddi: 14 Ionawr 2020

Annwyl Peter ac Umar

Llythyr Archwilio Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru â'u cyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru (y Prif Gwnstabl) sy'n gyfrifol am:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod eu hasedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Corff i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Rhoddais farn archwilio ddiamed ar ddatganiadau cyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru hefyd ar 31 Gorffennaf 2019

Mae cyrff yr Heddlu yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Cyrff Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 31 Gorffennaf 2019 rhoddais farnau archwilio diamed ar ddatganiadau cyfrifyddu Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl hefyd, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol pob corff. Hysbyswyd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl am y materion allweddol a gododd o archwiliad y cyfrifon yn fy adroddiad ar Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Gorffennaf 2019.

Rwyf yn fodlon bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru hefyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau

Mae f'ystyriaeth o'r trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar:

- y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiad o gyfrifon;
- canlyniadau'r gwaith archwilio a gynhaliwyd ar systemau rheoli mewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel yr adroddwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol;
- Canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi, lle bo'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall, gan gynnwys yr hyn a wnaed drwy Archwiliad Mewnol, yr oeddwn yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

I ddibenion fy ngwaith fe wneuthum werthuso systemau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Disgrifir y dull hwn yn fanwl yn [Atodiad 1](#) i'r llythyr hwn. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes yna fylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod yn eu lle a beth yw arwyddocâd y bylchau hynny.

Yn ychwanegol at y gwaith hwn, rwyf yn cynnal darn o waith mwy manwl, yn adolygu'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ymgymryd â threfniadau gweithio ar y cyd rhwng heddluoedd yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a rhennir ein canfyddiadau gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gynnar yn 2020.

Mae cyrff yr heddlu ar draws Cymru yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol

Yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ar ben gwaddol cyfnod maith o doriadau ariannol hyd yn hyn yw'r her fwyaf arwyddocaol yn y tymor canolig.

Yn 2018-19 fe wnaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl osod a gweithredu o fewn eu cyllideb refeniw o £272 miliwn ar ôl defnyddio £3.8 miliwn o'r gronfa wrth gefn. Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl Gronfeydd wrth Gefn y gellid eu Defnyddio o £27.1 miliwn (gostyngiad o £4.8 miliwn).

Ar gyfer 2019-20, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi gosod cyllideb o £287.2 miliwn. Mae hyn yn rhagdybio setliad ychwanegol o £3.3 miliwn (2.1%), arbedion gofynnol o £7.2 miliwn a chynnydd mewn Phraesept o 10.28%. Ar 31 Awst 2019, adroddwyd am danwariant o £2.46 miliwn yn erbyn y gyllideb. Ar yr adeg honno, rhagwelir tanwariant o £ 0.23 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r canlyniadau hyn yng nghyd-destun newidiadau sylweddol yn sefyllfa ariannol yr Heddlu dros nifer o flynyddoedd. I ymateb i'r pwysau hyn, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ble i ddyrannu adnoddau prin ac ystyried ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau. Yn eu cynllun ariannol tymor canol, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi nodi, heb gynnydd mewn praesept a setliad sy'n fwy na'r rhai a dybir yn y strategaeth ariannol tymor canolig, bod angen £35.5 miliwn o arbedion.


At hynny mae Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu Defnyddio wedi gostwng o £33.2 miliwn yn 2014-15 i £27.1 miliwn yn 2018-19 ac yng nghynllun ariannol y tymor canol, rhagwelir y bydd y rhain yn gostwng i £9.9 miliwn erbyn 2022-23. Mae ystyried balansau cronfeydd wrth gefn yn ofalus a sut y gellid eu defnyddio i gynorthwyo cynlluniau ariannol yn neilltuol o bwysig gan nad yw'n gynaliadwy i ddiwyddu ar gronfeydd wrth gefn i gynnal costau sy'n mynd ymlaen yn barhaus.

Rhoddais dystysgrifau yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi cael eu cwblhau ar 31 Gorffennaf 2019

Ni dderbyniais gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr ynghylch archwiliad 2018-19. Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynghylch y trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu ardystio bod archwiliad Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru hefyd wedi'i gwblhau pan roddais fy marn archwilio.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn y Cynllun Archwilio Blyneddol.

Yn gywir



Ann-Marie Harkin

Derwyn Owen

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad 1

Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Arddangosyn 1: Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau

Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a threfniadau rheoli cyllid	Cwestiynau ar y trefniadau
Sefydlu amcanion, penderfynu polisi a gwneud penderfyniadau	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau ar gyfer gosod, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol?
Cwrdd ag anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu sianelau cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth, a rhanddeiliad eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes yna drefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynghylch gwasanaethau yn cael eu cymryd i ystyriaeth?
Monitro ac adolygu perfformiad	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiadau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer cymryd camau gweithredu lle bo angen ac adrodd wrth y Comisiynydd/Prif Gwnstabl?
Cydymffurfio â pholisïau sefydledig	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau i gynnal system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys un i sicrhau cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol?
Peryglon gweithredol ac ariannol	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau i reoli ei beryglon busnes sylweddol?
Rheoli adnoddau ariannol ac eraill	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei sicrhau wrth ddefnyddio'i adnoddau? Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod ei wariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ganddo ar gael? Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau cywiro lle bo'n briodol, ac adrodd am y canlyniadau wrth uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl?
Safonau Ymddygiad Priodol	Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiadau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer cymryd camau gweithredu? Ydy'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau sydd wedi eu bwriadu i hybu a sicrhau cywirdeb a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes?

